# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 23 Chwefror 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 23 Chwefror 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 1 Mawrth 2024 |

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

Y Cyngorydd Ioan Thomas - Aelod Cabinet Cyllid

**PWNC**: Cytundeb Cyllideb Gyfun ('pooled fund') ar gyfer Llety Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

**PENDERFYNIAD –** Ail-ymrwymo â chytundeb cronfa gyfun rhanbarthol ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hŷn, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn parhau i weithredu fel awdurdod lletya.

Dirprwyo yr hawl i'r Pennaeth Oedolion Iechyd a Llesiant i gytuno ar adnewyddu y cytundeb i'r dyfodol os yw'r amodau yn debyg.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**


Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant<br>Y Cyngorydd Ioan Thomas - Aelod Cabinet Cyllid |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 23.02.24 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :**

Cytundeb Cyllideb Gyfun (‘pooled fund’) ar gyfer Llety Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Ail-ymrwymo â chytundeb cronfa gyfun rhanbarthol ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hŷn, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn parhau i weithredu fel awdurdod lletya.

Dirprwyo yr hawl i’r Pennaeth Oedolion Iechyd a Llesiant i gytuno ar adnewyddu y cytundeb i’r dyfodol os yw’r amodau yn debyg.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae’r gofyniad i sefydlu a chynnal cronfa gyfun ranbarthol yng Ngogledd Cymru ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hyn yn ofyniad cyfreithiol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015.

Yng nghyfarfod Cabinet 17 Medi, 2019 cymerdwywyd i’r Cyngor ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwe awdurdod lleol Gogledd i reoleiddio sefydliad, gweithrediad a threfniadau llywodraethu’r gronfa gyfun am gyfnod o dair blynedd.

Mae cyfnod y cytundeb gwreiddiol bellach wedi dod i ben, ac felly mae angen cadarnhau’r ymrwymiad ar gyfer y flwyddyn 2024/25 ymlaen.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Diben y trefniadau cronfeydd cyfun yw annog Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gydweithio er mwyn dylanwadu cymaint ag sy'n bosib ar ddatblygiad gwasanaethau yn y dyfodol, a sicrhau bod y gwasanaethau'n gynaliadwy yn y tymor hir ac yn gallu ymateb yn hyblyg i alw lleol.

Cyfuno cronfeydd ar gyfer comisiynu llety cartrefi gofal (nyrsio a phreswyl fel ei gilydd) yw un o'r meysydd a nodwyd fel blaenoriaeth o fewn y Cytundeb Integreiddio (a gefnogwyd eisoes gan Gyngor Gwynedd, Cynghorau eraill Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

Sefydlwyd y gytundeb ddiwethaf rhwng Cyngor Sir Ddinbych â Chynghorau eraill Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd am dymor o 3 mlynedd. Mae'r cytundeb yma gyda'r un partïon ac yn dyrannu cyllid yn yr un modd ac o'r blaen, ond, y tro hwn yn ymrwymiad parhaol (hynny yw, nid oes dyddiad terfynol ar y gytundeb.) Mae opsiwn i ddod ar gytundeb i derfyn gyda rhybydd o 3 mis ond mae sefyllfaeodd cyfyngiedig ar gyfer hyn ac mae'n bwysig nodi hyn. Yn yr un modd, mae'n bosibl i ddod ar gytundeb yma i ben yn dilyn sefydlu cytundeb newydd i gyflenwi ei dyletswyddau statudol.

Yn ogystal a'r uchod, mae modd i unrhyw un o'r partneriaid i alw am drafodaeth bellach ar gyfer addasu'r cytundeb, ac i addasu'r gytundeb gyda phenderfyniad yr holl bartion. Credir felly fod hyn yn negyddu unrhyw risg ychwanegol i'r Cyngor.

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig ag ail-ymrwymo i'r cytundeb. Bydd y trefniant yn golygu bod pob sefydliad partner yn darparu cyfraniadau i'r gronfa gyfun sy'n gyfwerth â'r costau y maent yn eu hysgwyddo. Bydd pob Partner yn parhau i fod yn gyfan gwbl gyfrifol am eu cyllidebau a'u gwariant eu hunain yn hyn o beth. Bydd gwariant yn erbyn y gronfa yn cael ei adolygu bob chwarter a'i wrthbwyso yn erbyn cyfraniadau pob partner.

Ni fydd unrhyw swyddogaethau'n cael eu dirprwyo fel rhan o'r trefniant cronfa gyfun. Golyga hyn y bydd pob partner yn cadw cyfrifoldeb unigol llawn am gyflawni eu dyletswyddau statudol o ran comisiynu a darparu gwasanaethau llety cartrefi gofal.

Ni godwyd unrhyw bryder am drefniadau llywodraethu'r gronfa, ac mae'n synhwyrol i Gyngor Sir Ddinbych barhau i weithredu fel awdurdod lletya.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** –

*Mae'r penderfyniad a geisir yn parhau trefniant sydd wedi bod yn gweithredu ers rhai blynyddoedd a nid oes rheswm ariannol dros beidio parhau â'r drefn. Nid yw'n drefn "rhannu risg" felly bydd pob awdurdod yn parhau i fod yn gyfrifol am reoli ei risgiau ariannol ei hun.*

**Swyddog Monitro** –

*Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb*

**Aelod/au Lleol** –

*Dim*